

Ysgol Gymraeg Cwm Nedd



Stryd Newydd
Glyn-nedd
Castell-nedd
SA11 5AG

New Street
Glynneath
Neath
SA11 5AG



Ffôn/Tel: 01639 720530
Ffacs/Fax: 01639 729175
E-bost/E-mail: yggcwmnedd@npt.school
ygg-cwm-nedd.j2bloggy.com

Annwyl rieni/gwarchodwyr,

Ymhellach i'm llythyr ddoe, dyma ragor o wybodaeth am y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol

Hylendid

Mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol wedi nodi canllawiau llym ac asesiadau risg cadarn y mae'n rhaid i'r ysgol gadw atynt er mwyn cadw cymuned ein hysgol yn ddiogel. Anogir pob disgybl i olchi ei ddwylo â sebon a dŵr yn rheolaidd. Mae unedau glanweithdra dwylo wedi'u gosod ar waliau o amgylch yr ysgol ac anogir disgyblion a staff i'w defnyddio'n aml.

Gwisg Ysgol

Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol ar ôl dychwelyd.

Dŵr a diodydd

Anogir disgyblion bob amser i gadw'n hydradol ac i yfed dŵr yn rheolaidd. Sicrhewch fod eich plentyn yn dod â photel o ddŵr wedi'i labelu'n glir â'u henwau bob dydd.

Bagiau ysgol

Heblaw am eu poteli dŵr, llyfrau darllen a'u casys pensil (a brechdanau o bosibl), ni fydd angen unrhyw eitemau nac adnoddau eraill ar ddisgyblion. Sicrhewch nad yw eich plentyn yn dod âg unrhyw beth heblaw'r eitemau hyn i'r ysgol, fel teganau, tedis ac ati.

Clybiau allgyrsiol

Ni threfnir unrhyw glybiau allgyrsiol ar gyfer tymor y gwanwyn. Bydd y penderfyniad hwn yn parhau i gael ei adolygu a bydd newidiadau yn cael eu gwneud yn unol â hynny.

Glanhau

Bydd yr holl ystafelloedd dosbarth, toiledau, dolenni drysau ac unrhyw fannau cyffwrdd uchel ac ati yn cael eu glanhau yn rheolaidd yn ystod y dydd, gydag adran lanhau'r awdurdod lleol yn glanhau ystafelloedd dosbarth a thoiledau yn drylwyr ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Casglu Disgyblion ar ddiwedd y dydd

Yn yr un modd â chyrraedd disgyblion, bydd plant yn cael eu casglu ar gyfnodau gwahanol wrth eu mynedfa ddynodedig (gweler isod). Unwaith eto, a all rhieni gadw at eu hamseroedd dynodedig ac arsylwi ar ganllawiau pellhau cymdeithasol trwy gadw 2 fetr ar wahân wrth giwio y tu allan i'r gatiau, gan sicrhau bod gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo. Bydd athrawon dosbarth yn hebrwng eu disgyblion allan ac yn eu trosglwyddo i rieni / gwarcheidwaid.

Dosbarth / Class	Amser dechrau Start times	Gât / Gate
Meithrin Bore Morning Nursery	9:00	Gât top gate
Meithrin Prynhawn Afternoon Nursery	1:15	Gât top gate

Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 a 2	8:35 – 8:40 8:40 – 8:45	Gât gwaelod <i>Bottom gate</i>
Blwyddyn 3, 4 Blwyddyn 5, 6	8:35 – 8:40 8:40 – 8:45	Gât top <i>gate</i>

Dosbarth / <i>Class</i>	Amser gorffen <i>End times</i>	Gât / <i>Gate</i>
Meithrin Bore <i>Morning Nursery</i>	11:20	Gât top <i>gate</i>
Meithrin Prynawn <i>Afternoon Nursery</i>	3:15	Gatiau dwbl/ <i>Double gates</i>
Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 a 2	3:15 3:20	Gât gwaelod <i>Bottom gate</i>
Blwyddyn 3, 4 Blwyddyn 5, 6	3:15 3:20	Gât top <i>gate</i>

Newidiadau i drefniadau hunan-ynysu (gall rhain newid eto yn y dyddiau nesaf)

Mae trefniadau ar hunan ynysu wedi newid. Dyma grynodedb byr o'r newidiadau:

- Bellach gofynnir i bawb dros 18 oed sydd wedi'u brechu'n llawn (ar ôl derbyn dau ddos llawn o frechlyn cymeradwy) a phlant rhwng 5 a 17 oed sefyll profion llif ochrol (LFT's) bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt â achos COVID-19 positif. Gelwir hyn yn 'Profion Cyswllt Dyddiol'.
- Gofynnir i'r rhai sy'n cynnal Profion Cyswllt Dyddiol sefyll eu profion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd. Ni fydd angen i'r unigolion hyn hunan-ynysu am y diwrnod hwnnw oni bai bod ganddynt LFT positif neu ddatblygu symptomau. Yn yr un o'r achosion hyn, dylent archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i oedolion heb eu brechu a nodwyd fel cyswllt ag achos positif COVID-19 ynysu am 10 diwrnod.
- Nid yw'n ofynnol i blant o dan 5 oed hunan-ynysu na phrofi fel cysylltiadau.

Dim ymwelwyr heb apwyntiad

Gofynnwn yn garedig i rieni osgoi troi i fyny yn ddirybudd os yn bosibl a chyfeirio pob ymholiad i'r ysgol, trwy e-bost neu ffôn. Os bydd angen i chi siarad âg aelod o staff yn bersonol, cysylltwch â ni i wneud apwyntiad.

Diolch i chi eto am eich cefnogaeth parhaus,

Mrs Christine Evans



Dilynwch ni ar Trydar/Follow us on Twitter @yggcwmnedd

Â dawn fe gawn ein geni
A'n hawl yw ei meithrin hi